



Cynllun Ennyn Diddordeb Defnyddwyr a Chyllideb 2019 Ynni Clyfar GB

Cyhoeddwyd 18 Rhagfyr 2018

smartenergyGB.org/cy

Ynni Clyfar GB
1 Alfred Mews
Llundain
W1T 7AA

Swyddfa'r Alban:
110 George Street
Caeredin
EH2 4LH

Swyddfa Cymru:
Tŷ Sophia
28 Heol y Gadeirlan
Caerdydd
CF11 9LJ

Enw masnachu'r "Corff Cyfathrebu Mesuryddion Clyfar Cyfyngedig" yw "Ynni Clyfar GB. Dylid deall bod unrhyw gyfeiriadau yn y ddogfen hon at "Ynni Clyfar GB" neu "y cwmni" yn cyfeirio at y "Corff Cyfathrebu Mesuryddion Clyfar Cyfyngedig". Dylid tybio bod unrhyw gyfeiriadau yn y "Diwygiadau i Amodau Safonol y Trwyddedau Cyflenwi Nwy a Thrydan, Trwyddedau Dosbarthu Trydan a'r Trwyddedau Cludo Nwy (Mesuryddion Clyfar) i'r "Corff Cyflwyno Canolog" yn cyfeirio at Ynni Clyfar GB hefyd.

Cynnwys

1. Crynodeb gweithredol	4
2. Llywodraethu	6
3. Metrigau a thargedau ar gyfer 2019	9
4. Agwedd at fforddadwyedd a gwerth am arian	11
5. Y dasg ar gyfer 2019	16
6. Hyblygrwydd ac optimeiddio parhaus	26
7. Cyllideb 2019	29

1. Crynodeb gweithredol

Wrth i ni ddod yn nes at ddiwedd 2018, mae miliynau o oedolion Prydain wedi cael gosodiad mesurydd clyfar, neu'n bwriadu derbyn gosodiad o fewn y chwe mis nesaf. Mae'n dystiolaeth i gryfder yr ymgyrch cyflwyno mesuryddion clyfar bod cynifer o'n cyd-ddinasyddion wedi'u cynnwys mewn categori sy'n draddodiadol yn isel ei ddiddordeb yn y cyfryw niferoedd. Rydym yn credu y bydd 2019 yn nodi trobwynt gwirioneddol wrth i'n gwlad drawsnewid tuag at ddyfodol clyfrach.

Er hynny, mae heriau o'n blaenau o hyd ar y daith hon. Mewn cyfarfodydd lluosog dros nifer o fisoedd a chan archwilio swm sylweddol o ddata modelu a sefyllfaoedd radicalaidd o wahanol, edrychodd y fforwm FfRhP¹ yn fanwl ar yr heriau o'n blaenau a rôl ymgyrch genedlaethol Ynni Clyfar GB a'r cyflenwyr wrth gwrdd â nhw. Cytunwyd bron yn unfrydol bod cyflawni gosodiadau'n mynd yn anoddach, trawsnewid o ragolygon cynnes yn fwy heriol, bod rhywfaint o wrthwynebiad yn bodoli (yn aml yn seiliedig ar fythau am fesuryddion clyfar), a bod yr amgylchedd newyddion negyddol cyffredinol yn gosod rhwystrau sylweddol i fabwysiadu mesuryddion clyfar.

Pennom her glir ar gyfer ein hunain i feddwl yn uchelgeisiol am rôl yr ymgyrch genedlaethol wrth ysgogi gosodiadau yn 2019. Rydym yn falch bod y fforwm FfRhP ac Ynni Clyfar GB wedi cytuno ar dargedau uchelgeisiol a chynllun sy'n ymgymryd â'r her hon.

Felly mae 2019 yn cynrychioli ail bwynt colyn ar ein taith: o adeiladu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth rhwng 2015 a 2017; i adeiladu'r ffrwd gofyn am/derbyn yn 2018; i ysgogi ymddygiad trawsnewid yn uniongyrchol yn 2019.

Er mwyn i drawsnewid lwyddo, mae angen i ni ymdrin â thasgau cyfatebol ail-arfarnu (creu frwd drawsnewid ddigonol o ofynwyr a derbynwyr newydd); newid ymddygiad (sy'n symbylu defnydd ond, yn bwysicach, yn adeiladu eiriolaeth dros y cynnyrch ymysg oedolion Prydain); ac ymddygiadau trawsnewid uniongyrchol (gan geisio gosodiad yn rhagweithiol neu ddweud 'hoffwn gael un' y tro cyntaf).

Gan hynny, am y tro cyntaf mae ein cynlluniau ar gyfer 2019 yn cynnwys elfen sylweddol o farchnata ymateb uniongyrchol am y tro cyntaf, gyda thaith gwsmer symlach sy'n creu porth cyswllt cenedlaethol ar gyfer yr holl gwsmeriaid. Yn 2019 bydd y cynllun hwn i bob pwrpas yn galluogi'r ymgyrch cyflwyno mesuryddion clyfar i ddyngwared manteision ennyn diddordeb defnyddwyr taith gwsmer fwy integredig mewn ffordd na fu'n bosib yn flaenorol.

Mae ein hymrwymiad i werth am arian, offer sydd ymysg y goreuon o'u math ac egwyddorion yn parhau heb eu newid, ac yn fwy nag erioed rydym yn cadw fforddadwyedd mewn cof. Gan y rheswm hynny, er i ni gredu y gellir cyflwyno canlyniadau ychwanegol yn gyfnewid am godi'r gyllideb yn gynyddrannol, bu i ni argymhell dull a gadarnhawyd gan y FfRhP sy'n cydbwyso targedau uchelgeisiol ar gyfer y flwyddyn i ddod gyda fforddadwyedd. Gan hynny, mae ein cynllun a chyllideb ar gyfer 2019 yn cyflwyno'r ymrwymiad cyllideb a wnaed i'r fforwm FfRhP wrth iddynt bennu targedau ar gyfer Ynni Clyfar GB yn 2019.

1 Y fforwm FfRhP yw'r grŵp o gyflenwyr ynni (perthnasol) mawr sydd â chyfrifoldeb dros bennu targedau fframwaith rheoli perfformiad Ynni Clyfar GB a chraffu perfformiad yn erbyn y targedau hynny.

Erys, wrth gwrs, 'yr hyn y gwyddys amdano sy'n hysbys a'r hyn sy'n anhysbys' y bydd angen i ni eu cadw mewn cof. Mae'r fforwm FfRhP wedi ystyried tybiaeth resymol o agweddau'r cyfryngau newyddion o blaid/ yn erbyn mesuryddion clyfar yn y flwyddyn i ddod, argaeledd cynnyrch a gwelliannau i dechnoleg. Cydnabyddir, os bydd y tybiaethau hyn yn newid yn faterol, y bydd angen i'n hymateb ni newid hefyd. Mae nifer o arloesiadau newydd yn ein dull yn 2019, yn anad dim buddsoddiadau arwyddocaol mewn sianelau ymateb uniongyrchol nad ydym wedi'u gwneud yn flaenorol.

Am y rhesymau hyn, byddwch yn gweld ymrwymiad newydd i ddull 'profi a dysgu' wrth i ni symud trwy'r flwyddyn, ynghyd ag ymrwymiad y bwrdd i ymgorffori pwyntiau adolygu amlach a mwy ffurfiol. Rydym hefyd yn falch o nodi ymrwymiad gan gyflenwyr ynni i rannu data gweithgarwch marchnata a galw gronynnau i wella ein gweladwyedd perfformiad trwy'r broses gyfan ymhellach. Mae'r ymrwymadau hyn, wedi'u cyfuno ag agwedd fwy hyblyg at delerau masnachol cyfryngau y telir amdanynt, yn golygu, hyd yn oed os bydd pethau'n newid, y gallwn ni newid yn unol â hynny.

Mae'r dyluniad polisi blaengar a greodd Ynni Clyfar GB, ac ymrwymiad y diwydiant ynni i'w lwyddiant, wedi creu ymchwydd o gefnogaeth dros fesuryddion clyfar ymysg y cyhoedd ym Mhrydain, er gwaethaf heriau technoleg wrth gyflwyno nhw a chryn dipyn o wrthwynebiad mewn rhai rhannau o'r wasg. Yr her ar gyfer 2019 yw ysgogi niferoedd mwy sylweddol o drawsnewiadau'n uniongyrchol. Byddwn yn ymgymryd â'r her honno.



Mark Lund
Cadeirydd y Bwrdd



Sacha Deshmukh
Prif Weithredwr

2. Llywodraethu

2.1 Amcanion Ynni Clyfar GB

Amcanion Ynni Clyfar GB fel y disgrifir mewn amodau trwydded cyflenwyr ynni yw:

- a. adeiladu hyder defnyddwyr mewn Systemau Mesuryddion Clyfar sy'n cael eu gosod gan gyflenwyr nwy a thrydan;
- b. cynyddu ymwybyddiaeth a dealltwriaeth defnyddwyr o'r defnydd o Systemau Mesuryddion Clyfar (a'r wybodaeth a gesglir trwyddynt);
- c. cynyddu parodrwydd Defnyddwyr Ynni i ddefnyddio Systemau Mesuryddion Clyfar i newid eu hymddygiad er mwyn iddynt ostwng eu defnydd o ynni;
- d. chynorthwyo defnyddwyr ar incwm isel neu ar fesuryddion rhagdal, neu ddefnyddwyr sydd efallai'n profi rhwystrau ychwanegol wrth fedru gwireddu buddion Systemau Mesuryddion Clyfar oherwydd eu hamgylchiadau neu nodweddion penodol, i wireddu buddion Systemau Mesuryddion Clyfar ac ar yr un pryd parhau i gynnal lefel ddigonol o gynhesrwydd a diwallu eu hanghenion eraill o ran ynni.

2.2 Bwrdd Ynni Clyfar GB

Mae strwythur bwrdd Ynni Clyfar GB wedi'i ddisgrifio yn yr Amodau Safonol Cyflenwi Nwy a Thrydan, y Trwyddedau Dosbarthu Trydan a Chludo Nwy (sef "y trwyddedau cyflenwyr"). Dyma aelodaeth y bwrdd ar 17 Rhagfyr 2018:

Cadeirydd Annibynnol:

- Mark Lund OBE

Wedi'u hethol gan a chan gynrychioli Cyflenwyr Perthnasol:

- Chris Adams (hefyd yn Gyfarwyddwr Mesuryddion a Thrawsnewid Clyfar SSE)
- Belinda Moore (hefyd yn Gyfarwyddwr Marchnata a Chyfathrebu E.ON)
- Peter Simon (hefyd yn Gyfarwyddwr Cynnyrch a Chynigion Nwy Prydain)
- Mel Stanley (hefyd yn Bennaeth Brand a Marchnata EDF Energy)

Wedi'u henwebu gan Gyngor ar Bopeth:

- Dhara Vyas (hefyd yn Bennaeth Systemau Ynni'r Dyfodol Cyngor ar Bopeth)
- James Taylor (hefyd yn Bennaeth Polisi a Materion Cyhoeddus, Scope)

Wedi'u hethol gan a chan gynrychioli Cyflenwyr Domestig Bach:

- Andrew Springall (hefyd yn Gyfarwyddwr Gweithrediadau Robin Hood Energy)

Wedi'u hethol gan a chan gynrychioli Cyflenwyr Annomestig:

- Lynn Morrison (hefyd yn Gyfarwyddwr Marchnata Opus Energy)
- Steve Mulinganie (hefyd yn Rheolwr Rheoleiddio Gazprom)

Yn cynrychioli buddiannau defnyddwyr ynni:

- Penny Shepherd
- Chris MacLeod

2.3 Y fforwm FfRhP a bwrdd Ynni Clyfar GB

Mae gan y fforwm FfRhP o gyflenwyr perthnasol gyfrifoldeb dros bennu a chynnal FfRhP o fetrigau a thargedau allweddol y mae gan Ynni Clyfar GB y dasg o gyflwyno yn eu herbyn.

Gweinyddir y fforwm FfRhP gan Energy UK ac fe'i cadeirir yn annibynnol gan Maxine Frerk. Y cyflenwyr perthnasol â chyfrifoldeb dros y FfRhP yn ystod y flwyddyn, hyd at a chan gynnwys y penderfyniad pennu targedau 2019 ar 17 Hydref 2018 oedd:

- Nwy Prydain
- Co-operative Energy
- EDF Energy
- E.ON
- Extra Energy
- First Utility
- n.power
- Ovo Energy
- Scottish Power
- SSE
- Utility Warehouse
- Utilita

Gwahoddir Ofgem a BEIS i anfon cynrychiolydd i gyfarfodydd y fforwm FfRhP i arsylwi trafodion.

Rhwng Awst a Hydref 2018, adolygodd y fforwm FfRhP y mewnwelediad a dadansoddiad diweddaraf sydd ar gael yn fanwl ac ystyriodd y rôl fwyaf priodol ar gyfer Ynni Clyfar GB o ran fod yn sbardun i drawsnewid ac felly helpu cyflenwyr i gyflawni eu targedau cyflwyno ar gyfer 2019.

Casgliad ei adolygiad oedd iddynt gytuno ar yr ystod o fetrigau a thargedau ar gyfer 2019 ar 17 Hydref 2018, y maent wedi'u disgrifio yn adran 3. Pennodd y fforwm FfRhP y targedau hyn gan ystyried y gyllideb ddangosol a ddyfynnwyd iddynt o tua £48m. Yn unol ag adran 7, mae cyllideb 2019 yn cydweddu â hyn o beth.

Nododd y fforwm FfRhP fraslun o'r gweithgareddau a swyddogaethau y byddai Ynni Clyfar GB yn eu perfformio yn 2019. Adlewyrchir y rhain yn y cynlluniau a fanylir yn y nodiadau hyn.

Mae gan fwrdd Ynni Clyfar GB gyfrifoldeb dros sicrhau ei fod yn goruchwyllo ymgyrch a gweithrediadau Ynni Clyfar GB, a bod Ynni Clyfar GB yn cyflwyno'n effeithlon ac yn effeithiol yn erbyn ei amcanion. Gan hynny, mae wedi adolygu'r cynllun gweithgareddau a chyllideb gysylltiedig i sicrhau ei fod yn briodol o ran cwrdd â'r her a bennwyd gan y fforwm FfRhP trwy dargedau 2019.

Mae'r Bwrdd wedi cydweithio'n agos â'r fforwm FfRhP yn ystod y cyfnod cynllunio. Mae Maxine Frerk wedi mynychu cyfarfodydd bwrdd Ynni Clyfar GB yn rheolaidd ac mae cynrychiolydd o fwrdd Ynni Clyfar GB wedi bod yng nghyfarfodydd y fforwm FfRhP. At hynny, mae Mark Lund hefyd wedi mynd i gyfarfodydd allweddol pan fydd y fforwm FfRhP wedi adolygu metrigau a thargedau ar gyfer 2019.

3. Metrigau a thargedau ar gyfer 2019

Yn ei gyfarfod ar 17 Hydref 2018, cytunodd y fforwm FfRHP ar y metrigau a thargedau a ganlyn sydd i'w cynnwys yn y Fframwaith Rheoli Perfformiad yn 2019²:

Maes	Metrig	Diwedd-H1 2019	Diwedd-H2 2019	Mesuriad
Metrigau trawsnewid	1. Trawsnewidiadau ychwanegol (oedolion PF)	3.23m	2.83m	Rhagolwg ynni clyfar a gynhaliwyd gan Populus
	2. Trawsnewidiadau ychwanegol (65+ oed)	0.75m	0.66m	Rhagolwg ynni clyfar a gynhaliwyd gan Populus
	3. Trawsnewidiadau ychwanegol (rhagdalau)	0.55m	0.48m	Rhagolwg ynni clyfar a gynhaliwyd gan Populus
	4. Trawsnewidiadau ychwanegol (incwm isel)	0.48m	0.42m	Rhagolwg ynni clyfar a gynhaliwyd gan Populus
	5. Trawsnewidiadau ychwanegol (rhentwyr)	1.17m	1.02m	Rhagolwg ynni clyfar a gynhaliwyd gan Populus
Metrigau gofyn am/derbyn	6. Gofyn Am/Derbyn yn Bendant (oedolion PF)	4.32m	2.90m	Rhagolwg ynni clyfar a gynhaliwyd gan Populus
	7. Gofyn am/derbyn (oedolion PF)	11.37m	7.64m	Rhagolwg ynni clyfar a gynhaliwyd gan Populus
Metrig gwrthod	8. Gwrthodwyd (oedolion PF)	11.63m	11.15m	Rhagolwg ynni clyfar a gynhaliwyd gan Populus
Metrigau gwerth am arian	9. Cost fesul trawsnewidiad ychwanegol	£7.92		Rhagolwg ynni clyfar a gynhaliwyd gan Populus, fesul cyfanswm gwariant Ynni Clyfar GB
	10. Asesiad annibynnol o werth am arian prisiau cyfryngau y telir amdanynt	A: ardderchog	A: ardderchog	Archwiliad annibynnol a gynhaliwyd gan MediaSense
PR metrics	11. Canran oedolion PF sy'n cofio gweld neu glywed unrhyw newyddion, erthyglau neu ddarnau barn am fesuryddion clyfar yn ddiweddar sy'n datgan ei fod wedi peri iddynt deimlo'n fwy cadarnhaol am fesuryddion clyfar	cyfartaledd cymedrig o 45% dros H1 2019	cyfartaledd cymedrig o 45% dros H1 2019	Fel a feintiolwyd gan ymchwil annibynnol Hall & Partners
	12. Cyfanswm argraffau cyfryngau a enillir sy'n cynnwys negeseuon cadarnhaol wedi'u gosod gan Ynni Clyfar GB am fesuryddion clyfar	290 miliwn	290 miliwn	Fel a feintiolwyd gan ymchwil annibynnol Echo Research
Metrigau defnydd	13. Poblogaeth glyfar sy'n adrodd "Rwy'n rheoli faint o ynni a ddefnyddiaf o gwmpas fy nghartref yn weithredol"	56%	56%	Tracio defnydd o fesuryddion clyfar a gynhaliwyd gan Populus
	14. Poblogaeth glyfar sy'n adrodd am "llawer iawn o wahaniaeth/ tipyn o wahaniaeth" wrth ateb "Pa wahaniaeth, os o gwbl, ydy cael mesurydd clyfar wedi'i wneud i sut rydych yn defnyddio ynni adref?"	34%	34%	Rhagolwg ynni clyfar a gynhaliwyd gan Populus,

² Mae'r fforwm FfRHP wedi dewis rhoi tasg i Ynni Clyfar GB yn 2019 sy'n canolbwyntio'n gyfan gwbl ar gynulleidfaoedd domestig, gan hynny nid oes unrhyw dargedau sy'n gysylltiedig â chwsmeriaid annomestig (microfusnesau)

4. Agwedd at fforddadwyedd a gwerth am arian

4.1 Model y Swyddfa Archwilio Genedlaethol

Mae bwrdd Ynni Clyfar GB yn cydnabod pwysigrwydd gwerth am arian ar draws holl weithrediadau'r cwmni. I sicrhau gwneud ein gorau i fwyafu effeithiolrwydd ein gwariant ac isafu gwastraff, rydym yn cymhwyso model gwerth am arian y Swyddfa Archwilio Genedlaethol fel sail i egwyddorion cynllunio cyllidebu. Mae'r Swyddfa Archwilio Genedlaethol wedi cyhoeddi manylion ei model gwerth am arian ar ei gwefan.

4.2 Egwyddorion cynllunio cyllidebu

Sefydlodd bwrdd Ynni Clyfar GB is-bwyllgor o grŵp bach o gyfarwyddwyr anweithredol i argymhell egwyddorion cynllunio ar gyfer datblygu cyllideb 2019. Bu i'r grŵp hwn gynnwys:

- Mark Lund (Cadeirydd)
- Peter Simon (Nwy Prydain)
- Mel Stanley (EDF Energy)
- Belinda Moore (E.ON)
- Chris MacLeod (Cynrychiolydd defnyddwyr)

Datblygwyd yr egwyddorion a ganlyn a ddisgrifir yn adrannau 4.2.1 a 4.2.2 isod gan yr is-bwyllgor hwnnw ac fe'u cyflwynwyd i'r Bwrdd yn ei gyfarfod ar 26 Medi 2018, pan gymeradwywyd yr egwyddorion hyn yn unfrydol.

Nododd y fforwm FfRhP fod yr amlen gyllideb 2019 a ystyriodd wrth bennu'r targedau ar gyfer 2019 wedi ei chyfrifo'n unol â'r egwyddorion hyn.

4.2.1 Egwyddorion gor-redol ar gyfer datblygu'r gyllideb

- Mae'n ddyletswydd ar y bwrdd i ddefnyddio'r dadansoddi a modelu gorau sydd ar gael i bennu amrediad a graddfa priodol y gweithgarwch sy'n angenrheidiol ar gyfer cyflawni targedau potensial a bennwyd ar gyfer Ynni Clyfar GB gan y fforwm FfRhP.
- Mae'r Bwrdd yn ystyried bod modelu econometrig (ME) yn darparu'r fethodoleg ddadansoddi fwyaf cadarn mewn perthynas â thracio perfformiad canlyniadau ymgyrchoedd hanesyddol a modelu graddfa gweithgareddau yn y dyfodol. Gan adlewyrchu'r gwerth a roddir ar ddadansoddi econometrig, mae'r bwrdd yn sicrhau bod ME yn cael ei wneud ar amllder sy'n adlewyrchu arfer blaenllaw (3 gwaith y flwyddyn).
- Mae'r bwrdd yn defnyddio dadansoddi econometrig o ME fel sail i fodelu'r cymysgedd sianelau gwerth gorau (o weithgarwch sianelau y telir amdanynt ac a enillir) y bydd ei angen i gyflawni targedau a bennwyd ar gyfer Ynni Clyfar GB gan y fforwm FfRhP.
- Bydd y bwrdd yn sicrhau bod y fforwm FfRhP yn cael ei hysbysu am y gyllideb ofynnol debygol ar gyfer prif feysydd gweithgarwch y byddai eu hangen er mwyn i Ynni Clyfar GB gyflwyno yn erbyn targedau potensial (i alluogi'r fforwm FfRhP i wneud ei benderfyniad ar dargedau a gyfeirir gan y lefel gyllideb fras y byddai ei hangen i gyflwyno yn eu herbyn).

4.2.2 Tybiaethau cynllunio sy'n benodol i 2019

- Mae dadansoddiad hanesyddol o berfformiad ein hymgyrch hyd yma, ac ymgyrchoedd ennyn diddordeb eraill o raddfa debyg, yn dangos tystiolaeth ar gyfer graddfa'r dasg cynhyrchu gofyn am/derbyn a roddwyd i ni mewn targedau hyd yma mai cyfryngau y telir amdanynt yw'r ysgogydd creu gofyn am/derbyn mwyaf effeithiol ac effeithlon. Mae'n ddyletswydd arnom i brofi dilysrwydd parhaus y canfyddiadau hanesyddol hynny os cânt eu rhagamcanu tua'r dyfodol, ond hefyd i wneud penderfyniadau ar rôl a graddfa gweithgarwch y telir amdanynt a'i gymharu â gweithgarwch a enillir (ar gyfer pa dargedau bynnag a bennir gan y fforwm FfRHP yn y dyfodol) ar sail tystiolaeth a rhagamcaniadau realistig.
- Mae'n rhaid i ni ffurfio barn realistig am yr hinsawdd newyddion tebygol ynglŷn â'r ymgyrch yn 2019, gan ddefnyddio data dadansodol sy'n seiliedig ar yr effaith, a ffynonellau/testunau, sylw diweddar a barn nad yw'n or-optimistaidd nac yn or-besimistaidd ar destunau a graddfa pwysau newyddion negyddol yn 2019 ac i ba raddau y gellir mynd i'r afael â hynny.
- Mae'r amgylchedd newyddion bron yn gyfan gwbl y tu hwnt i reolaeth Ynni Clyfar GB (gan fod newyddion negyddol yn cael ei symbylu gan weithredoedd cwmnïau ynni a chwestiynau ynglŷn â rheolaeth y llywodraeth o'r ymgyrch); serch hynny bydd yn hollbwysig i barhau i ddefnyddio cysylltiadau cyhoeddus ymatebol a rhagweithiol i liniaru'r hinsawdd gyffredinol cyn belled ag sy'n bosib. Dylai'r disgwyliad o'r hyn y bydd modd i'r fath liniaru ei gyflawni yn 2019 fod yn seiliedig ar ddadansoddi'r profiad hyd yma a rhagamcaniad o'r hyn y gellir ei gyflawni yn 2019, gydag uchelgais ond hefyd realaeth yn y disgwyliad hwnnw.
- Ni allwn gynllunio gweithgareddau partneriaeth farchnata trwy ddull econometrig gan nad yw ymgyrhaeddiad cymharol y gweithgarwch a lefelau buddsoddi hyd yma o'r fath raddfa a all gael ei thracio mewn modelu econometrig. Fodd bynnag, mae gwerthusiad hanesyddol o bartneriaethau marchnata Ynni Clyfar GB yn dangos y gallwn gyflawni uwchben lefelau effaith cymharydd ymysg y rhai a gyrhaeddir (gan nodi bod y gost fesul ymgyrhaeddiad yn sylweddol uwch na sianelau eraill, yn benodol cyfryngau y telir amdanynt). Gan hynny, ni ddylid ystyried bod partneriaethau marchnata'n ddull o gynyddu gofyn am/derbyn yn faterol ymysg yr holl oedolion, ond y dylid ei ystyried fel ymateb a dargedir ar gyfer cyflwyno ymgyrhaeddiad ychwanegol ac effaith uchel fel rhan o'r ymgyrhaeddiad hwnnw ymysg cynulleidfaoedd penodol y disgwylir y bydd yn anos i'r ymgyrch brif-ffrwd eu cyrraedd, ac y mae'r dadansoddiad hanesyddol yn dangos bod ein partneriaethau marchnata'n fwyaf effeithiol â nhw.
- Mae gweithgareddau Materion Corfforaethol y tu hwnt i reoli newyddion yn angenrheidiol i'r graddau a ddisgwylir gan gorff gwasanaeth cyhoeddus o'n math ni (er enghraifft, gan adlewyrchu'r gofynion trwydded a chyfraith gwmmni i ni gynhyrchu adroddiadau blynyddol, y gofynion rheolaidd wrth gael ein galw i adrodd i gyrff seneddol yn y tair senedd ac adrodd ar ein gweithgareddau a'r gofyniad sydd arnom i ddarparu tystiolaeth i gyrff llywodraeth a pholisi ar draws y tair cenedl ar ennyn diddordeb mewn mesuryddion clyfar.) Gan hynny, mae angen i ni gynnal swyddogaeth polisi a materion cyhoeddus i gyflawni'r dyletswyddau pwysig hyn, ond hefyd sicrhau bod buddsoddi yn y maes hwn yn parhau'n gymesur dim ond â'r gofynion hyn ac nad yw'n mynd yn ormodol ar gyfer mudiad o'n maint a'n rôl.
- Dylai tâl cydnabyddiaeth staff barhau'n deg ac yn gystadleuol ond nid yn ormodol; gyda phenderfyniadau ar y rhinweddau hyn yn deillio o ddadansoddi a meincnodi annibynnol allanol blynyddol. Ar hyn o bryd nid oes gofyniad i dalu uwchben meincnodau cystadleuol er mwyn cadw staff (er gwaethaf bywyd cyfnod penodol y sefydliad), ond mae'r bwrdd yn annog rheolwyr i sicrhau bod offer nad ydynt yn effeithio ar gyflogau, fel cyfnodau rhybudd a dulliau eraill, yn cael eu defnyddio i annog staff i deimlo'n ddiogel wrth barhau yn y sefydliad a diogelu'r sefydliad yn erbyn effaith ymadawiad sydyn personél allweddol.

4.2.3 Cymhwyso egwyddorion cynllunio i gyllideb 2019

Cynllunio cymysgedd sianelau a'r gyllideb	Defnyddir ME fel sail i fodelu barn seiliedig ar dystiolaeth o'r gyllideb ofynnol ar gyfer y cymysgedd sianelau gwerth gorau (o weithgarwch sianelau y telir amdanynt ac a enillir) y bydd ei angen i gyflawni targedau a bennwyd ar gyfer Ynni Clyfar GB gan y fforwm FfRhP
Prynu cyfryngau (pris unedol)	Yn seiliedig ar ddisgwyliad o gyflawni gwerth "A, ardderchog" wrth i PHD gyd-drafod pris unedol cyfryngau a phrynu (yn seiliedig ar archwiliad annibynnol MediaSense o werth wrth bennu'r radd "A, ardderchog")
Costau cynhyrchu fel cyfran o gostau cyfryngau	Er bod cydbwysedd y costau cynhyrchu i gostau cyfryngau yn destun maint y cyfryngau y mae ei angen (fel a bennir gan ME) a'r strategaeth greadigol; mae a) yn egwyddor y byddwn yn dryloyw wrth bennu'r gymhareb hon (cost gofod cyfryngau / cost cynhyrchu hysbysebion) i ddangos y cydbwysedd effeithiol rhwng prynu a chynhyrchu cyfryngau. Ni ddylem anelu at fod yn faterol wahanol i'r gymhareb gystadleuol a gyflawnwyd yn 2018.
Cysylltiadau cyhoeddus	<p>Dylem gynllunio disgwyliadau o'r hinsawdd newyddion yn 2019 a'i heffaith ar effeithlonrwydd yr ymgyrch gan ddeillio o ddadansoddiad ME o effaith yn 2018, gan fodelu nid ar y cyfnod mwyaf negyddol ond hefyd dros gyfnod amser pan ddangosodd profiad 2018 reolaeth newyddion effeithiol trwy weithgarwch cysylltiadau cyhoeddus ymatebol hynod ddwys.</p> <p>Hefyd, dylem gynllunio disgwyliadau o ran cyflwyno'r cyfraniad cysylltiadau cyhoeddus i gynhyrchu gofyn am/derbyn a gynhyrchwyd yn gadarnhaol trwy ddadansoddiad ME o'r effaith yn 2018 ers dechrau'r strategaeth newydd a'r lefel fuddsoddi gynyddol ers y gwanwyn eleni. Dylem fod yn uchelgeisiol wrth ddisgwyl unrhyw welliant pellach yn yr effaith honno yn 2019, ond gan sicrhau bod disgwyliadau a modelu'r effaith botensial honno yn sgil cysylltiadau cyhoeddus cadarnhaol yn adlewyrchu barn realistig o elastigedd y canlyniad yn erbyn y gyllideb ar gyfer cysylltiadau cyhoeddus.</p>
Partneriaethau marchnata	Rydym yn cydnabod na fydd modd i ni gynllunio graddfa/cyllideb partneriaethau marchnata yn 2019 trwy fodelu ME. Gan hynny, bydd y bwrdd yn pennu i ba raddau y mae'n credu bod buddsoddi mewn partneriaethau marchnata gyda thrydydd partion wedi'i gyfiawnhau er mwyn ychwanegu effaith wedi'i thargedu gyda chynulleidfaoedd penodol pan fydd risg benodol o dan-fynegeio yn erbyn targedau 2019. Hyd yn oed cyn yr ystyriaeth honno, dylid cymhwyso'r egwyddor farchnata na ddylai'r buddsoddiad partneriaeth farchnata yn 2019 fod yn fwy na'r £1.5m a gyllidebwyd ar gyfer y maes hwn yng nghyllideb 2018.
Mewnwelediad (er eglurder, dyma ein label ar gyfer yr holl ymchwil, mesur a gwerthuso o unrhyw fath)	Mae gennym gymaryddion allanol defnyddiol gan COI a PHE sy'n rhoi dangosyddion o 5.6% a 5% o drosiant i ni yn ôl eu trefn. Fodd bynnag, ar hyn o bryd rydym yn is na hynny ar 3.3% o drosiant yn ein cyllideb 2018. Yn amodol ar unrhyw newidiadau sylweddol mewn gofynion ymchwil, mesur neu werthuso a bennir ar ein cyfer gan y fforwm FfRhP neu'r bwrdd, dylem weithio ar yr egwyddor gynllunio o gynnal y lefel hon ar uchafswm o 3.5% o drosiant.

Polisi a materion cyhoeddus	Gan adlewyrchu'r egwyddor a esbonnir uchod, mae hyn wedi'i gyllidebu ar hyn o bryd fel 0.7% o drosiant yn 2018. Ni ddylai'r egwyddor gynllunio ar gyfer 2019 ddangos cynnydd o'r % hon mewn trosiant, ac ni ddylai'r uchafswm terfynol (£343K) a gyllidebwyd ar gyfer y maes hwn godi hyd yn oed os bydd trosiant cyffredinol y cwmni yn 2019 yn fwy nag yn 2018.
Tâl cydnabyddiaeth staff	Comisiynwyd Buzzacott LLP i ddarparu dadansoddiad allanol annibynnol o werth am arian tâl cydnabyddiaeth Ynni Clyfar GB. Adroddodd hynny fod Ynni Clyfar GB yn talu'n deg, ac nid yn ormodol, o'i gymharu â meincnodau a gwnaed argymhelliad i gynnal y cystadleurwydd hwnnw ond nid ar lefel ormodol. Yr egwyddor gynllunio yw y dylid ymgorffori'r dadansoddiad ac argymhellion ynglŷn â chystadleurwydd a gwerth am arian yng nghyllideb 2019 ac yn bendant na ddylai fod yn fwy na hynny ar gyfer 2019. Egwyddor gynllunio bellach ar gyfer 2019 yw na ddylai fod unrhyw gynnydd mewn staff y flwyddyn nesaf o'i gymharu â 2018.
Costau swyddfeydd	Y gost faterol yn y maes hwn yw rhent, trethu a thâl gwasanaeth y swyddfa yn Llundain. Pan gymeradwyodd y bwrdd y les ar gyfer y swyddfa yn Llundain yn 2015, roedd y cyfanswm o rent, trethi a thâl gwasanaeth yr un isaf ar restr fer o saith swyddfa. Roedd penderfyniad y bwrdd hefyd yn seiliedig ar gyd-drafod hyd les hynod, sy'n darparu hyblygrwydd treigl ar ôl diwedd mis Medi 2021.
Costau TG	Rydym wedi adolygu ein hystâd TG ac nid ydym yn credu bod angen unrhyw fuddsoddiad materol yn 2019 uwchben lefelau 2018. Mae ein gwariant presennol yn sylweddol is na'r cymaryddion allanol (wedi'i fynegi fel canran o drosiant). Serch hynny, rydym yn credu mai'r egwyddor gynllunio ar gyfer 2019 yw y dylem gynnal y lefel effeithlonrwydd hon sy'n well na'r cymharydd, a bod ein lefelau gwariant ar TG yn parhau â'r un gyfran drosiant ag yn 2018, tuag 1%.

DS Yn ei gyfarfod ar 17 Hydref 2018, pennodd y fforwm FfRhP dwy egwyddor gynllunio bellach y gofynnodd i Ynni Clyfar GB lynu wrthynt wrth ddatblygu cyllideb 2019. Y rhain yw y dylid darparu ar gyfer mewnwelediad a gwerthuso gwell (gan gynnwys amllder modelu econometrig) sy'n cymryd gweithgareddau cyflenwyr marchnata mwy gronynnaudd i ystyriaeth ac yn darparu modelau galw ar gyfer cyflenwyr o'r gweithgarwch ymateb uniongyrchol newydd; ac yr hoffai egluro na ddylai cyflawni gradd "A, ardderchog" wrth brynu cyfryngau (pris unedol) fel uchod fod yn rhwystr i gyflawni hyblygrwydd priodol mewn ymrwymadau ariannol cyfryngau y telir amdanynt.

Gan hynny, mae cynllun 2019 a chyllideb 2019 yn adlewyrchu'r dwy egwyddor ychwanegol hon.

5. Y dasg ar gyfer 2019

Er bod nifer o fetrigau a thargedau wedi'u pennu gan y FfRhP (a'u cyflwyno'n fanwl yn adran 3), yn ei hanfod y dasg ar gyfer 2019 yw: creu gofynwyr a derbynwyr pendant (GDP); ysgogi trawsnewid o'r gronfa honno; a chyfyngu ar greu gwrthodwyr. Mae'r cynllun hwn wedi'i optimeiddio i'r tasgau hynny.

Felly, cytunodd y fforwm FfRhP ar y mesur trawsnewidiadau ychwanegol, sef i bob pwrpas y rhai sydd wedi ceisio cael, ar fin cael neu wedi cael mesurydd clyfar, fel a fesurir yn y Rhagolwg ynni clyfar.

Mae'n werth nodi symudiad hefyd o'r dasg 2018 o greu gofynwyr a derbynwyr yn fwy eang, i optimeiddio yn 2019 tuag at greu gofynwyr a derbynwyr pendant (y rhai a fyddai'n gofyn am neu'n derbyn yn bendant o fewn chwe mis, gan ddiarddel i bob pwrpas y rhai sy'n ateb 'mae'n debygol' i'r cwestiwn hwnnw). Gofyn am/derbyn yn bendant (GDP) yw'r dangosydd arweiniol mwyaf dibynadwy o drawsnewid, gyda 61% o ddefnyddwyr sydd â'r meddylfryd hwn yn trawsnewid o fewn chwe mis yn erbyn 44% o ddefnyddwyr sy'n trawsnewid o feddylfryd o ofyn am/derbyn ehangach).


Gallwn weld yn y dadansoddiad econometrig bod cyfryngau y telir amdanynt yr ymgyrch genedlaethol yn creu gofynwyr a derbynwyr ac yn gostwng gwrthodiadau. Sbardunir yr ail i raddau helaeth gan gyfryngau newyddion negyddol. Dyma pam mae creu gofynwyr a derbynwyr (pendant) newydd, rheoli gwrthodiadau a chreu allbwn net mwy cadarnhaol o sylw yn y newyddion a'r cyfryngau i gyd yn ffactorau cyfrannol pwysig at lwyddiannau trawsnewid yn 2019.

5.1 Symleiddio taith y cwsmer


Yn hanesyddol, er bod yr ymgyrch genedlaethol wedi creu brwdfrydedd dros ymgyrmyd â mesuryddion clyfar, nid ydym wedi medru darparu cam cydlynol nesaf, gan annog defnyddwyr yn lle i gysylltu â'u cyflenwr ynni. Mae hyn wrth gwrs yn gosod rhwystrau ar y daith (wrth ddod o hyd i'r manylion cyswllt hynny, cysylltu a llywio trwy gynigion cynnyrch/gwasanaeth lluosog i ddod o hyd i'r daith glyfar). Rydym yn credu bod niferoedd sylweddol o ddefnyddwyr yn cwmpo allan o'r broses ar y pwyntiau hynny.

Gan hynny, ystyriodd y fforwm FfRhP welliannau i'r daith gwsmer o'n gweithgareddau ni trwodd i gymryd camau 'trawsnewid'. Gan gydnabod nad yw hanfodion yr ymgyrch cyflwyno mesuryddion clyfar yn mynd i newid (h.y. does dim gwasanaeth archebu/gosod canolog), cytunom ar egwyddorion ar gyfer trosglwyddo defnyddwyr yn uniongyrchol i gyflenwyr (dros y ffôn ac ar-lein).

Bydd ein dull manylach yn 2019 yn canolbwyntio ar gefnogi GDP i drawsnewid trwy gymryd y cyfrifoldeb hwnnw dros lywio i dudalen mesuryddion clyfar neu ganolfan galwadau cwsmeriaid eu cyflenwr allan o ddwylo'r cwsmer a symleiddio'r broses:



Bydd yn darparu cyfleoedd i fesur cynnydd a phwyntiau cwmpo allan yn gliriach:




Fel rhan o baratoi ar gyfer gweithredu'r sianelau gweithredu cwsmeriaid newydd, bydd mapio trwyadl yn cael ei gyflawni i ddatblygu manylion llawn sut y daw'r teithiau delfrydol trosgynnol hyn yn fyw.

Rydym yn deall y bydd yn allweddol i gyflenwyr ynni ddarparu adnoddau priodol ar gyfer cwsmeriaid sy'n dod trwy'r sianelau hyn ac i faterion gweithredol potensial gael eu hadnabod yn ystod y broses gynllunio. Byddwn yn creu model i ragamcanu lefelau pasio trwodd a bydd y model hwn yn cael ei fireinio wrth i fwy o bwyntiau data ddod i'r amlwg trwy'r dull profi a dysgu parhaus, a dadansoddi.

Yn gweithio gyda'n hymgynghorwyr arbenigol, ac arbenigwyr cyflenwyr ynni'n galluogi ni i sefydlu egwyddorion a methodolegau allweddol ar gyfer hyn, ac i broses adolygu ac optimeiddio glir gael ei defnyddio ar sail barhaus. Bydd gweithgor o weithredwyr Ynni Clyfar GB ac arbenigwyr cyflenwyr ynni'n ystyried manylion gweithredu.


5.2 Rôl ar gyfer sianelau

Ystyriodd y fforwm FfRHP a bwrdd Ynni Clyfar GB y dair tasg bennaf o ysgogi GDP, ysgogi trawsnewidiadau a chyfyngu ar wrthodiadau, gan nodi 'tasg gofleidiol' o liniaru sylw negyddol yn y cyfryngau newyddion gymaint â phosib. Gwnaethant ystyried mewnwelediad cronus o weithgareddau a pherfformiad Ynni Clyfar GB ei hun ac offer gorau'r diwydiant, fel modelu econometrig, i aseinio rolau i sianelau penodol sydd fwyaf effeithiol o ran cyflawni'r tasgau.



Fel a ddisgrifiwyd yn adran 4, cytunodd bwrdd Ynni Clyfar GB ar egwyddor gynllunio allweddol o fodelu econometrig (ME) i ddarparu'r fethodoleg ddadansoddi fwyaf cadarn mewn perthynas â thracio perfformiad canlyniadau ymgyrchoedd hanesyddol a modelu graddfa gweithgareddau yn y dyfodol a gofynion cyllideb. Mae'r bwrdd yn defnyddio dadansoddi econometrig o ME fel sail i fodelu'r cymysgedd sianelau gwerth gorau y bydd ei angen i gyflawni targedau.

Nododd y fforwm FfRhP raddfa gwariant cyfryngau y telir amdanynt y mae eu hangen i gyflawni'r targedau y mae wedi'u pennu ar gyfer 2019. Yn unol â'r egwyddorion cynllunio cytunedig, mae modelu econometrig wedi ei ddefnyddio i gynllunio sianelau cyfryngau y telir amdanynt. Esbonnir rôl cyfryngau y telir amdanynt, ochr yn ochr â sianelau eraill, yn erbyn y tasgau allweddol hyn yn adrannau 5.3-5.5, ond er eglurder, disgwylir i drosolwg o gyfryngau y telir amdanynt fesul sianel fesul cyfran gwariant fod fel a ganlyn. Y gymhareb rhwng cost gofod cyfryngau yn erbyn cost cynhyrchu hysbysebion yw 83.6%/16.4%.



5.3 Ysgogi gofyn am/derbyn yn bendant (GDP)

Metrig:	GDP fel a ddiffinnir gan 'Gofyn Am/Derbyn yn Bendant o fewn y chwe mis nesaf' ymysg y rhai nad ydynt yn berchnogion
Targed:	4.32m/2.90m GDP yn H1/H2
Wedi'i fesur gan:	Rhagolwg ynni clyfar (dwywaith y flwyddyn)
Dangosyddion arweiniol:	Tracio parhaus (adroddiadau misol), arolwg hyrwyddo 'brand mesurydd clyfar' cymdeithasol, econometrig
Tasg gyfathrebu:	Cryfhau dymuniad
Prif sianelau:	Cyfyngau y telir amdanynt, cysylltiadau cyhoeddus defnyddwyr

Gan mai nod y DPA Gofyn am a Derbyn yn Bendant yw creu cronfa o bobl sydd â dymuniad pendant i gael mesurydd clyfar, y rôl gyfathrebu yw cryfhau'r dymuniad am fesuryddion clyfar. Cyflawnir y dasg hon orau trwy ddull a ddewisir yn ofalus i gyfathrebu brand.

Mewn sianelau cyfyngau y telir amdanynt yn bennaf, crëwyd y syniad ymgyrch 'Arbed Eich Ynni Dros...' yn 2018 gydag egwyddorion cyfathrebu dymuniad mewn cof. Mae'n canolbwyntio ar ddod â mantais craidd mesurydd clyfar - sef arbed ynni - yn fyw mewn ffordd sy'n ennyn diddordeb cynulleidfa eang yn emosiynol.

Yr hyn sy'n bwysig yw bod ymchwil wedi dangos y bu'n llwyddiannus wrth ysgogi GDP ers lansio'r ymgyrch. Gyda hyn mewn cof, rydym yn fodlon mai 'Arbed Eich Ynni Dros...' yw'r llwyfan fwyaf effeithiol ar gyfer yr ymgyrch GDP graidd yn erbyn yr holl oedolion, gan gynnwys cwsmeriaid incwm isel a rhagdalau.

Gan hynny bydd GDP yn cael ei ysgogi gan yr edafedd ymgyrch a ganlyn:

1. Ymgyrch Graidd 'Arbed eich ynni dros...' - sy'n canolbwyntio ar arbed ynni (ac felly awgrymu arbed arian)
2. Edefyn B 'Arbed eich ynni dros...' - gan ddangos manteision eraill mesurydd clyfar o dan yr un syniad creadigol
3. Targed cyd-destunol 'Arbed eich ynni dros...' - gan ddefnyddio targedu seiliedig ar angerdd i uchafu perthnasedd emosiynol yr ymgyrch
4. Cysylltiadau cyhoeddus rhagweithiol

Bydd cysylltiadau cyhoeddus rhagweithiol yn chwarae rôl bwysig wrth greu a chynnal GDP, gan ysgogi sylw yn y wasg sy'n gadarnhaol ac yn gyfoethog o ran negeseuon, gan adeiladu mudiad tuag at genedl sy'n ymroddedig i 'fynd yn glyfar'; cynnal lefel y bobl sy'n dweud y byddant yn gofyn am neu'n derbyn gosodiad yn bendant, gan gynnal eu brwdfrydedd a chyffro dros eu gosodiad; a symud pobl sy'n dweud y maent yn debygol o ofyn am neu dderbyn mesurydd clyfar i'r blwch pendant. Gan greu ymdeimlad o gyffro digon cryf ar gyfer pobl sy'n dweud nad ydynt yn siŵr ynghylch gofyn am neu dderbyn mesurydd clyfar neidio dros y blwch tebygol i'r blwch pendant.

I gyflawni hyn, byddwn yn ceisio symud y stori ymlaen ac i fyny, gan ganolbwyntio ar y darlun ehangach a'r rhesymau mwy rhyfeddol pam mae pobl yn mabwysiadu mesuryddion clyfar. Mae hyn yn cynrychioli esblygiad o'r fframwaith negeseuon presennol o gwmpas y manteision uniongyrchol i'r materion darlun ehangach fel newid yn yr hinsawdd ac anghenion cymdeithas. Bydd y dull yn seiliedig ar 'fywyd real' ac wedi'i arwain gan astudiaethau achos i raddau helaeth, gan eirioli dros y pethau efallai nad yw pobl wedi meddwl

amdanynt, fel sut mae mesuryddion clyfar yn gam ymlaen sylweddol ar gyfer diogelwch cartref neu iechyd gofal a chymdeithasol. Uwchlaw popeth, rydym eisiau i'r sylw ganolbwyntio ar negeseuon sy'n annog gweithredu nawr, yn hytrach na chefnogi syniad amwys o "ddyfodol gwell".

Caiff hyn ei gyflawni trwy'r strwythur ymgyrch 'arwr, hyb a hylendid', yr ydym wedi'i gyflwyno'n llwyddiannus mewn marchnata digidol ers tro. Bydd dau ennyd 'arwr' sy'n dal sylw yn ein helpu i siapio'r gyd-drafodaeth genedlaethol, wedi'i chefnogi gan weithrediadau rhanbarthol ac wedi'u micro-dargedu a fydd yn darparu tabyrddiad (hyb') o weithgarwch ac wedi'i ategu gan raglen erthyglau nodwedd i ddefnyddwyr, briffiau ar gyfer newyddiadurwyr a darnau golygyddol etc (y gweithgareddau 'hylendid').

5.4 Ysgogi trawsnewid

Metrig:	Trawsnewidiadau fel a ddiffinnir gan 'Wedi derbyn/ar fin derbyn/wedi ceisio derbyn mesurydd clyfar'
Targed:	3.23m/2.83m trawsnewidiadau ychwanegol yn H1/H2
Wedi'i fesur gan: Dangosyddion arweiniol:	Rhagolwg ynni clyfar (dwywaith y flwyddyn) Tracio parhaus (adroddiadau misol), paneli rheoli wythnosol ar gynhyrchu awgrymiadau uniongyrchol, econometrïg
Tasg gyfathrebu: Prif sianelau:	Ei gwneud hi'n hawdd Cyfryngau y telir amdanynt, digidol, partneriaethau marchnata

Mewn cyfryngau y telir amdanynt, ochr yn ochr â gweithgareddau sy'n canolbwyntio ar GDP, mae angen cyfryngau a dargedir i symbylu trawsnewid, gan ddarparu gwybodaeth i'r gynulleidfa sy'n ennyn ac yn galluogi gweithredu: sef strwythur ymgyrch Ymateb Uniongyrchol (YU) i bob pwrpas. Mae argaeledd diriaethol yn cynrychioli pa mor hawdd y mae i ddod o hyd i gynnyrch, ac felly ar gyfer cyd-destun y dasg yn 2019, bydd yn cyfeirio at rwyddineb cael mesurydd clyfar, naill ai drwy gyfarwyddyd chwilio pendant newydd, taith ddigidol neu rif ffôn.

Wrth ddylunio'r ymgyrch YU, rydym wedi ymchwilio i egwyddorion creadigol ymysg y goreuon o'u math, y dysgir pum peth craidd ohonynt. Er mwyn bod yn fwyaf effeithiol, bydd ein hymgyrch Ymateb Uniongyrchol yn:

1. Canolbwyntio ar y neges weithredu fwyaf cymhellol.
2. Gwneud yr Alwad i Weithredu'n ecblyg.
3. Pwysleisio'r rheswm dros ymateb nawr.
4. Defnyddio elfennau o'r ymgyrch GDP gysylltiedig; trosoli'r argaeledd meddyliol a grëwyd gan strwythurau cof yr ymgyrch GDP, er mwyn ysgogi ymateb.
5. Defnyddio profi iteraidd i optimeiddio'r gyfradd ymateb.

Bydd cyfathrebiadau YU ymarferol wedi'u targedu yn y sianelau a ganlyn: awyr agored wedi'i micro-dargedu yn seiliedig ar ddata côd post gan Populus, clyweled wedi'i ficro-dargedu yn seiliedig ar y data hwn mewn amgylchedd fideo, ac arddangosiad ar-lein sy'n gyrru traffig at y wefan Trawsnewid ganolog. Mae gweithgarwch PPC Google a fydd yn bennaf yn gyrru at y wefan Trawsnewid ganolog a negeseuon sy'n canolbwyntio ar YU yn ein cylchrediadau Printiedig a Radio yn ffurfio cydrannau canolog y cynllun hefyd.

Yn ychwanegol at y dull ymgyrch YU, byddwn yn ychwanegu galwad i weithredu sy'n canolbwyntio ar drawsnewid ar draws yr holl asedau GDP. Bydd yr alwad i weithredu GDP yn cyfeirio defnyddwyr at chwiliad a anelir at weithredu (fel "Chwiliwch 'Cael mesurydd clyfar'") neu rif ffôn cyfeirio fel a fanylir yn fwy trwyadl yn adran taith ddefnyddiwr y ddogfen hon.

Bydd creu'r alwad i weithredu wedi'i ffocysu ar ddiwedd yr hysbysebu GDP, ac ar yr un pryd cadw ffocws y cyfathrebiadau ar greu ymateb emosiynol, yn golygu y bydd nid yn unig yn creu ffrwd o GDP, ond y bydd hefyd yn galluogi defnyddwyr i drawsnewid yn haws oddi mewn iddo.

Bydd marchnata digidol yn canolbwyntio ar ysgogi trawsnewid yn fras ymysg yr holl oedolion ac yn bennaf ymysg rhentwyr preifat.

Er bod rhentwyr preifat ar y blaen ymysg oedolion Prydain Fawr wrth ofyn am a derbyn, ac yn llai tebygol o fod â phryderon am fesuryddion clyfar, mae gwaith i'w wneud o hyd gyda'r gynulleidfa o hyd i ysgogi trawsnewid. Mae'n debygol bod hyn wedi'i yrru gan natur dros dro rhentwyr preifat a manteision canfyddedig mesurydd clyfar nad ydynt yn drech nag ymdrech gychwynnol y gosodiad. Mae'r gynulleidfa hefyd yn amharod i gyfathrebu â landlordiaid a rheolwyr adeiladau, ac mae llawer o denantiaid yn tybio bod eu hawl i osod mesurydd clyfar yn fater cyfreithiol amwys.

Mae rhentwyr preifat yn tueddu i fod yn ifanc ac yn weithredol ar sianelau cymdeithasol, a dyna pam y dewiswyd y sianel hon. Mae ganddynt rwystrau tebyg i'r cynulleidfaoedd defnyddwyr ifainc rydym wedi ennyn eu diddordeb trwy gydol ymgyrchoedd defnyddwyr ifainc 2017 a 2018, sef awydd i ofyn am a derbyn ond diffyg dilyn trwodd. Byddwn yn adeiladu ar yr hyn a ddysgwyd o'n hymgyrchoedd defnyddwyr ifainc yn y gorffennol, ac ymgyrch a fydd yn canolbwyntio ar rentwyr preifat ifainc fydd yn ein tasg gymdeithasol bennaf gyntaf yn 2019. Byddwn hefyd yn ennyn diddordeb cymdeithasau landlordiaid trwy weithgareddau materion cyhoeddus.

Bydd sianelau digidol hefyd yn parhau i gefnogi'r ymgyrch graidd trwy amrywiaeth o ddulliau. Yn rhannol bydd yn cyfnerthu ac yn estyn ymgyrhaeddiad y cyfryngau creadigol y telir amdanynt trwy addasiadau ar gyfer sianelau digidol, a fydd yn parhau i fod yn rhan o friff cydlynol a arweinir gan y tîm Brand a Hysbysebu.

At hynny, bydd sianelau digidol yn cefnogi'r ymgyrch graidd trwy ddatblygu dwy ymgyrch creadigol a fydd yn ymddangos yn gyntaf ar gyfryngau cymdeithasol i ysgogi trawsnewid a chyfnerthu'r ymgyrch 'Arbed eich ynni dros...' mewn sianelau digidol.

Bydd gyrru symbyliad ymysg cynulleidfaoedd hŷn wedi'i gefnogi gan farchnata partneriaeth. Mae'r gweithgarwch hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar gyfyngu ar wrthodiadau ac felly ceir disgrifiad llawn o'r dull yn erbyn y dasg honno fel a ganlyn.

5.5 Cyfyngu ar wrthodiadau

Metrig:	Gwrthod fel a ddiffinnir gan 'Annhebygol o ofyn am neu dderbyn o fewn y chwe mis nesaf'
Targed:	11.63m/11.15m 'annhebygol o G/D' yn H1/H2
Wedi'i fesur gan:	Rhagolwg ynni clyfar (dwywaith y flwyddyn)
Dangosyddion arweiniol:	Tracio parhaus (adroddiadau misol), econometrig
Tasg gyfathrebu:	Creu ail-arfarnu
Prif sianelau:	Cyfryngau y telir amdanynt, digidol, partneriaethau cyfryngau, partneriaethau marchnata

Datgelodd canlyniadau'r rhagolwg ynni clyfar (ton 9) mai pobl dros 65 yw'r gwrthodwyr mwyaf. Er bod mwy na thraean (35%) o'r rhai sy'n honni nad oes ganddynt fesurydd clyfar yn annhebygol o dderbyn mesurydd clyfar yn ystod y chwe mis nesaf, mae hyn wedi'i symbylu fwyaf gan bobl hŷn: mae mwy na hanner (53%) o'r rhai dros 65 oed yn wrthodwyr.

Mae'n glir hefyd bod yr ymchwydd mewn sylw negyddol yn y wasg, ynghyd â'r defnydd uchel o gyfryngau gan y gynulleidfa hŷn hon, wedi ychwanegu her ychwanegol, gan mai pobl hŷn sydd â'r lefelau uchaf o bryderon am fesuryddion clyfar a'r ymgyrch.

Mae'r gynulleidfa hon yn ymddiried mewn ac yn dibynnu ar ddylanwad gan gymheiriaid i gynorthwyo darganfod a gwneud penderfyniadau, yn rhannol oherwydd diffyg ymddiriedaeth gyffredinol mewn marchnata.

Gan hynny bydd marchnata partneriaeth yn canolbwyntio'n bennaf ar gyfyngu ar wrthod (a symbylu trawsnewid) ymysg cynulleidfaoedd hŷn. Mae dadansoddiad o effeithiolrwydd ein partneriaethau marchnata blaenorol yn dangos y gallant daclo gwrthod a symbylu trawsnewid ymysg cynulleidfaoedd hŷn, yn enwedig trwy ennyn diddordeb wyneb wrth wyneb. Er hynny, mae graddfa ac anhawster yr her wrthod yn gofyn am ddull wedi'i ddiweddarau o ragamcanu'r cyfryw weithgarwch partneriaeth.

Yn 2019 byddwn yn cydweithio â llai o bartneriaid ar draws y rhaglen na mewn blynyddoedd blaenorol, ond mewn ffordd sy'n creu mwy o raddfa ac effaith fesul partneriaeth. Byddwn yn canolbwyntio ar bartneriaethau nodedig ar lefel ranbarthol a chenedlaethol a fydd â'r gallu i dorri trwodd i'r gynulleidfa hon. Bydd ymgyrhaeddiad y partneriaethau hyn yn fwy na'n cyfartaledd partneriaid blaenorol felly.

Bydd ennyn diddordeb wyneb wrth wyneb yn flaenoriaeth ar gyfer y gwaith hwn, tactegau a gefnogir gan werthuso blaenorol yn erbyn y gynulleidfa hŷn (e.e. gwelsom gyfradd gofyn am a derbyn o 69% ymysg y rhai a siaradodd â llysgennad brand yn ein gweithrediad RHS Wisley). Bydd dosbarthiad partneriaethau rhanbarthol wedi'i ategu gan ddata micro dargedu newydd.

At hynny, byddwn yn hyfforddi partneriaid lleol nad ydynt wedi'u hariannu mewn ardaloedd lle canolbwyntir gwrthodwyr mwyaf i alluogi ni i daclo ardaloedd bach o wrthodwyr am lefel fuddsoddi gymharol isel. Byddwn yn parhau i redeg y Ganolfan Adnoddau a fydd yn gweithredu fel both ar gyfer rhaglen y bartneriaeth gan gyflwyno cynnig asedau a gwybodaeth sydd bob amser ar gael i bartneriaid lleol ledled y wlad. Byddwn yn blaenoriaethu cynnig asedau sy'n cyflwyno yn erbyn y dasg wrthod.

Mewn sianelau cyfryngau y telir amdanynt, mae hysbysebu arddangos traddodiadol yn effeithiol wrth greu ail-arfarniad emosiynol cadarnhaol. Er bod y teledu, tu allan i'r cartref a'r wasg yn perfformio'n effeithiol iawn wrth ysgogi gofyn am/derbyn (GDP) pendant, mae lleihau gwrthod hefyd yn gofyn am (a) digon o ofod i bledio achos mwy cymhleth, a (b) trosoli amgylchedd yr ymddiriedir ynddo i wneud ein hachos yn un awdurdodol a chredadwy. Mae partneriaethau cyfryngau yn caniatáu i ni wneud y ddau.

Ein dull fydd lleihau gwrthod trwy daclo creiddiau credoau negyddol sydd gan bobl am fesuryddion clyfar a'r ymgyrch, ac ar yr un pryd rhoi nhw yng nghydestun y manteision darlun mawr.

5.6 Lliniaru sylw negyddol yn y newyddion

Nod:	Lliniaru sylw negyddol yn y cyfryngau
Metrig Pennaf:	Effaith y cyfryngau ar deimladau
Targed:	45% yn gadarnhaol
Wedi'i fesur gan:	Dracio parhaus
Dangosyddion arweiniol:	Adroddiad data'r wasg ddyddiol
Tasg gyfathrebu:	Darparu cydbwysedd
Prif sianelau:	Cyfryngau newyddion, materion cyhoeddus a pholisi

Mae gweithgarwch ennyn diddordeb y newyddion, polisi a materion cyhoeddus yn rhan graidd o'n strategaeth ar gyfer creu cyd-drafod mor ffafriol ag sy'n bosib am fesuryddion clyfar.

Dros y blynyddoedd diwethaf, rydym wedi gweld naratif cynyddol andwyol yn datblygu o gwmpas mesuryddion clyfar mewn rhai cyfryngau cenedlaethol a chynnydd cyfatebol mewn ymholiadau cyfryngau ymatebol. Mae'r rhain wedi'u hysgogi'n bennaf gan y problemau y mae defnyddwyr yn eu hwynebu wrth gadw gwasanaeth clyfar gyda mesuryddion clyfar SMETS1 a sylwadaeth am gostau cyflwyno ac effaith tymor byr costau'r uwchraddiad i fesuryddion clyfar ar filiau defnyddwyr (ni waeth beth yw'r gostyngiadau tymor hwy mewn costau). Er gwaethaf gwelliannau technegol parhaus yn yr ymgyrch cyflwyno mesuryddion clyfar, byddai'n fyrbwyll i ddisgwyl y bydd yr her hon yn diflannu yn 2019, yn enwedig o ystyried y cynnydd sylweddol yn nifer y gosodiadau. Serch hynny rydym yn uchelgeisiol yn ein cynlluniau i fod yn rhagweithiol gyda'r cyfryngau newyddion. Bydd gwaith cysylltiadau cyfryngau newyddion yn dylanwadu o gwmpas pedair prif golofn - trin newyddion yn ymatebol, sganio'r gorwel, rheoli cyfathrebu ynghylch problemau/argyfwng a datblygu perthnasoedd gyda newyddiaduron allweddol.

Mae'n bwysig sicrhau bod seneddwyr, budd-ddeiliaid, awdurdodau lleol a chyflogwyr yn cael eu hysbysu a'u cynghori am yr ymgyrch. Byddwn yn parhau i anfon diweddariadau ymgyrch rheolaidd i seneddwyr i ennyn eu diddordeb yn yr ymgyrch genedlaethol a phecynnau cymhorthfa i ddarparu gwybodaeth ar gyfer eu swyddfeydd etholaeth ynglŷn â'r ymgyrch. Byddwn yn parhau i gynnal sesiynau briffio a galw heibio yn San Steffan, Bae Caerdydd a Chaeredin ochr yn ochr â digwyddiadau materion cyhoeddus mwy creadigol ym mhob cenedl. Byddwn yn parhau i fod yn rhagweithiol mewn meysydd lle gallwn ymateb i neu gyfrannu at drafodaethau am fesuryddion clyfar, gan gynnwys darparu tystiolaeth ar gyfer ymholiadau pwyllgor (fel ymholiadau'r Pwyllgor Dethol Seneddol). Byddwn yn cyflwyno sesiynau briffio 1:1 gyda budd-ddeiliaid ac, ochr yn ochr â phartneriaid, yn cynnal digwyddiadau sy'n rhoi llwyfan i ni hyrwyddo a thrafod yr anghenraid am system ynni clyfar a sut, gan amlygu pwysigrwydd mesuryddion clyfar a'r ymgyrch i gynulleidfaoedd dylanwadol. Bydd ein swyddogaeth gohebiaeth gyhoeddus (sydd wedi'i rheoli o fewn ein swyddogaeth Materion Cyhoeddus) yn cynnal ei hamserau gwasanaeth targed cyfredol gyda'r gweithgaredd hwn - tua 3,000 o gysylltiadau cyhoeddus y flwyddyn - wedi'u rheoli'n gyfan gwbl gan y tîm mewnol.

Mae datblygu polisi, er mwyn cynhyrchu tystiolaeth dros fanteision mesuryddion clyfar, nawr ac yn y dyfodol, yn darparu offeryn hanfodol wrth geisio dylanwadu ar sylw gan fudd-ddeiliaid a'r cyfryngau ar yr ymgyrch. Yn 2019 byddwn yn cychwyn ar raglen gwaith polisi a fydd yn ceisio cywain tystiolaeth bellach o rôl mesuryddion clyfar wrth greu system ynni glyfrach a hyblyg sydd o fudd i ddefnyddwyr, y genedl a'r planed. Bydd datblygu polisi hefyd yn cynnal ffocws clir ar drawsnewid i fesuryddion clyfar trwy eirioli dros amgylchedd polisi sy'n rhoi ystyriaeth lawn i fesuryddion clyfar ar draws yr holl feysydd polisi llywodraeth presennol perthnasol, gan gynnwys rhai'r gweinyddiaethau datganoledig.

5.7 Ffynnu defnydd

Metrig:	Defnydd fel a ddiffinnir gan "Rwy'n rheoli faint o ynni a ddefnyddiaf o gwmpas fy nghartref yn weithredol" ac adrodd am y gwahaniaeth o ran ynni y mae defnyddio mesurydd clyfar wedi'i wneud o gwmpas y cartref.
Targed:	56%/56% H1/H2 (rheoli'n weithredol) 34%/34% H1/H2 (gwahaniaeth a wnaed)
Wedi'i fesur gan:	Offeryn tracio defnydd mesuryddion clyfar / Rhagolwg ynni clyfar (dwywaith y flwyddyn)
Dangosyddion arweiniol:	Tracio parhaus (adroddiadau misol),
Tasg gyfathrebu:	Gyrru defnydd
Prif sianelau:	Cyfryngau y telir amdanynt

Dyluniwyd yr ymgyrch graidd 'Arbed eich ynni dros...' gyda'r metrig defnydd mewn cof ac mae perfformiad yn 2018 yn dangos ei bod yn gyrru'r metrigau hyn. Defnyddiwyd cyfryngau y telir amdanynti ddarparu'r 'eurgylch' gofynnol yn erbyn y dasg ddefnydd.

6. Hyblygrwydd ac optimeiddio parhaus

Mae gennym nifer o fecanweithiau a fydd yn darparu gwybodaeth reoli i gyfeirio optimeiddio parhaus.

Rydym wedi edrych yn fanwl ar ein trefniadau prynu cyfryngau i sicrhau y gallwn ymateb fel y bo'n briodol beth bynnag yw graddfa'r newid angenrheidiol. Roedd y fforwm FfRhP wedi'i fodloni, er y gallai ymateb ar fyr rybudd arwain at golli gwerth i ryw raddau, ein bod wedi lliniaru hyn cymaint â phosib.

Gallwn ymateb o fewn wythnos ym mhob sianel i ddiffodd cyfryngau a gohirio gweithgareddau fel y bo angen. I bob pwrpas, yr uchafswm pryniant cyfryngau y byddwn yn agored ac wedi'n hymrwymo iddo ar unrhyw bwynt mewn amser fydd tuag 8 wythnos.

Yn ystod 2019, mae Bwrdd Ynni Clyfar GB a'r fforwm FfRhP yn cydnabod pwysigrwydd rheoli gweithgarwch yn agos ac yn amserol fel y gellir addasu ymgyrch Ynni Clyfar GB yn brydlon i gymryd y data diweddaraf sydd ar gael i ystyriaeth.

Gan hynny, bydd y Bwrdd a'r fforwm FfRhP yn parhau i fonitro perfformiad ym mhob cyfarfod. Agwedd bwysig ar hyn fydd gweld effaith ymgyrch Ynni Clyfar GB ar lefel y cwsmeriaid wedi'u trawsnewid sydd wedi trefnu apwyntiad i gael gosodiad mesurydd clyfar. Gan hynny, bydd yn bwysig i gyflenwyr rannu data ag Ynni Clyfar GB ar apwyntiadau a gosodiadau fel y gallwn ddeall ar y cyd pa effaith y mae'r ymgyrch yn ei chael. Fel rhan o hyn, bydd y data ar nifer y cwsmeriaid sy'n ffonio'r rhif cenedlaethol neu'n cael eu dargyfeirio o'n gwefan yn werthfawr. Rydym yn disgwyl y bydd y data hwn a'r data y bydd cyflenwyr data'n gallu ei ddarparu ar y nifer o apwyntiadau gosod sy'n cael eu gwneud ar gael yn rheolaidd.

Wrth gefnogi'r data rheoli perfformiad hwn, rydym yn monitro ac yn adrodd ar ofyn am/derbyn, gofyn am/derbyn yn bendant, gwrthodwyr a'r manylder o arolygon llif cwsmeriaid mor fuan ag y byddant ar gael. Byddwn yn cytuno ar yr union ddata ac amllder adrodd gyda'r fforwm FfRhP.

6.1 Mewnwelediad a gwerthuso

Mae mewnwelediad a gwerthuso o'r radd flaenaf, darparu arweiniad wrth ddatblygu gweithgareddau, gwella cyflwyno a gwerthuso o ran eu heffaith sydd wedyn yn bwydo'n ôl i ddatblygu gweithgareddau'r dyfodol, yn parhau'n rhan graidd o'n dull cynllunio a chyflwyno.

Bydd edafedd mewnwelediad a gwerthuso yn 2019 yn cynnwys:

- ymchwil defnyddio ac agwedd (e.e. Rhagolwg ynni clyfar, tracio defnydd, ymchwil ansoddol sy'n ymchwilio i gymhelliannau a rhwystrau allweddol cynulleidfaoedd penodol)
- datblygu ac optimeiddio creadigol (e.e. rhagbrofi hysbysebu ansoddol neu feintiol, neu brofi AB byw)
- asesiadau effeithiolrwydd ar gyfer optimeiddio parhaus a dolenni adborth ar gyfer gweithgareddau'r dyfodol (e.e. tracio hysbysebu, arolygon cyfranogwyr partneriaethau marchnata, gwerthuso partneriaethau cyfryngau, modelu econometrig)
- dadansoddiad cyd-destunol o sgysiau a sylw (e.e. gwrando cymdeithasol, gwerthusiadau annibynnol o'r wasg)
- asesu camau trawsnewid a gymerwyd (ailgyswllt Rhagolwg ynni clyfar, dadansoddiad o effeithiolrwydd gweithgareddau Ymateb Uniongyrchol (YU) wrth ysgogi camau trawsnewid)
- dadansoddi'r llif cwsmeriaid ar draws cyflenwyr ynni i arwain lefelau gweithgarwch gofynnol a gweld cyfleoedd

(D.S. nid rhestr gynhwysfawr o'r holl ymchwil a dadansoddi a gyflawnwyd mo'r uchod)

Wrth i weithgareddau yn null YU gael eu cyflwyno yn 2019 bydd cyfres o brofion yn rhan gyntaf 2019 i brofi a dysgu pa gyfuniad o negeseuon a sianelau sydd â'r cyfle optimaidd i ysgogi trawsnewid. Bydd hyn yn golygu rhywfaint o brofi sylfaenol gyda defnyddwyr, ond hefyd gweithgareddau dadansoddi data cynyddol yn seiliedig ar y pwyntiau data ychwanegol y bydd y mentrau hyn yn eu darparu. Yn ogystal â chael ei ddefnyddio fel rhan o ddolen adborth allweddol ar gyfer cynllunio ymatebol ac ystwyth, bydd y dadansoddiad ychwanegol hwn yn darparu gweladwyedd cynyddol data perfformiad allweddol y gofynnir amdano gan y fforwm FfRhP.

Ymhellach i hyn, bydd modelau econometrig ychwanegol yn cael eu creu, gan gynnwys rhai ar gyfer y targedau FfRhP newydd o drawsnewid a GDP. Bydd amlder modelu econometrig yn cael ei gynyddu o deirgwaith y flwyddyn i bedair gwaith, er mwyn cefnogi'r gallu i ymateb ac ystwythder wrth gynllunio cyfryngau a gweithgareddau. Trwy'r fforwm FfRhP mae cyflenwyr wedi ymrwymo i rannu'r data perthnasol (ATL a BTL) i gyfeirio optimeiddio'r modelau hyn.

Yng ngoleuni maint ac effaith gynyddol yr hinsawdd newyddion negyddol ar ddymuniad defnyddwyr i gael mesurydd clyfar a welwyd yn 2018, adolygwyd a gwellwyd trefniadau monitro a gwerthuso'r wasg (a gyflawnwyd gan Echo Research).

At hynny, teimlwyd bod angen deall yr hyn y mae defnyddwyr yn ei gymryd i ffwrdd o ddarnau newydd yn y wasg (boed yn gadarnhaol neu'n negyddol) a sut maent yn dylanwadu ar debygolrwydd y defnyddiwr i dderbyn mesurydd clyfar. Gan hynny, sefydlwyd Offeryn Tracio Gwerthuso Effaith y Wasg yn ystod H2 2018, a bwriedir y bydd hyn yn ofynnol o hyd yn 2019.

7. Cyllideb 2019

Mae'r cyfanswm cyllideb ar gyfer 2019 o £48.433m wedi'i thorri i lawr i'r gyllideb gyfalaf o £38.807m a'r gyllideb costau gweithredu sefydlog o £9.626m.

	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	Cyfanswm 2019
Cyllid cyfalaf					
Ennyn diddordeb defnyddwyr					
Cysylltiadau cyhoeddus defnyddwyr rhagweithiol	805,500	416,500	856,500	421,500	2,500,000
Cynhyrchu	909,616	789,616	1,222,741	1,003,913	3,925,886
Prynu cyfryngau (gan gynnwys ffioedd)	4,632,209	6,308,081	3,394,116	6,936,650	21,271,055
Partneriaethau cyfryngau (gan gynnwys ffioedd)	335,096	1,455,288	1,455,288	1,455,289	4,700,961
Marchnata digidol	704,711	639,211	251,711	309,843	1,905,475
Partneriaethau marchnata	710,066	457,566	160,566	171,566	1,499,764
Taith ffôn ac ar-lein	641,055	87,815	87,815	87,815	904,500
Mewnwelediad	372,500	266,500	345,500	278,500	1,263,000
Cyfanswm Ennyn Diddordeb Defnyddwyr	9,110,752	10,420,577	7,774,236	10,665,077	37,970,642
Materion corfforaethol					
Newyddion	98,500	144,500	107,750	102,250	453,000
Polisi	9,750	38,000	23,000	26,250	97,000
Materion cyhoeddus	60,900	65,100	68,250	51,000	245,250
Treuliau teithio a byw Materion Corfforaethol	10,249	10,249	10,249	10,249	40,996
Cyfanswm Materion Corfforaethol	179,399	257,849	209,249	189,749	836,246
Cyfanswm cyllid cyfalaf	9,290,151	10,678,425	7,983,485	10,854,825	38,806,887

	Ch1	Ch2	Ch3	Ch4	Cyfanswm 2019
Costau gweithredu sefydlog					
Costau staff (gan gynnwys YG a phensiwn)	1,367,033	1,354,058	1,356,824	1,496,327	5,574,242
Hyfforddi a datblygu	91,729	87,339	64,009	62,782	305,859
Archwilio perfformiad	174,975	228,975	183,583	273,975	861,508
Costau rhedeg adeiladau a swyddfeydd	621,821	306,378	292,361	262,833	1,483,393
Treuliau teithio a byw	24,300	24,300	24,300	44,300	117,200
TGCh	159,763	93,563	101,752	112,590	467,668
Archwilio a chyfrifyddu ariannol	15,075	15,075	15,075	35,075	80,300
Yswiriant, cyfreithiol ac ymgyngoriaeth	68,894	18,649	18,000	70,990	176,533
Dibrisio	123,210	123,210	123,210	120,710	490,340
Darpariaeth ddrwgddyled	0	0	50,000	40,000	90,000
Treth	1,320	1,320	1,320	1,320	5,280
Llog Banc	(6,390)	(6,390)	(6,390)	(6,390)	(25,560)
Cyfanswm Costau Gweithredu Sefydlog	2,641,730	2,246,478	2,224,045	2,514,512	9,626,765
Cyfanswm Ynni Clyfar GB	11,931,882	12,924,904	10,207,530	13,369,337	48,433,653

Wrth weithredu'r gyllideb hon, mae ymrwymiad gan y bwrdd i ymgorffori pwyntiau adolygu mwy ffurfiol ac aml yn ystod y flwyddyn. Rydym hefyd yn falch o nodi ymrwymiad gan gyflenwyr i rannu data gweithgarwch marchnata a galw gronynnau i wella ein gweladwyedd perfformiad trwy'r broses gyfan ymhellach. Mae'r ymrwymadau hyn, wedi'u cyfuno ag agwedd fwy hyblyg at delerau masnachol cyfryngau y telir amdanynt, yn golygu, hyd yn oed os bydd pethau'n newid, y gallwn ni newid yn unol â hynny.

7.1 Nodiadau i'r gyllideb

Ennyn Diddordeb Defnyddwyr

- i. Cysylltiadau cyhoeddus defnyddwyr rhagweithiol:** yn cynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â chreu a defnyddio ymgyrchoedd cysylltiadau cyhoeddus defnyddwyr, gan gynnwys cefnogaeth a ffioedd asiantaeth, costau doniau ac eirioli, ymchwil at ddibenion cysylltiadau cyhoeddus rhagweithiol, ysgrifennu copi a darluniadau, cynhyrchu asedau ffotograffiaeth a chlyweled/sain.
- ii. Cynhyrchu:** yn cynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â chynhyrchu hysbysebion a ddefnyddir mewn unedau hysbysebu traddodiadol (mae arddangos digidol wedi'i gynnwys felly ond mae cynnwys ymgyrchoedd 'digidol frodorol' wedi'u heithrio), gan gynnwys ffioedd asiantaeth creadigol, cynllunio a chyfrif, costau defnydd a'r holl gostau gwaith celf a chynhyrchu, canllawiau a dylunio corfforaethol arall.
- iii. Prynu cyfryngau:** yn cynnwys yr holl gostau a ffioedd asiantaeth cysylltiedig â chomisiynu cynllunio a phrynu gofod cyfryngau mewn sianelau fel y tu allan i gartref, teledu, radio, print a digidol.
- iv. Partneriaethau cyfryngau:** yn cynnwys yr holl gostau a ffioedd cysylltiedig cynllunio, cynhyrchu a phrynu gofod cyfryngau ar gyfer partneriaethau cyfryngau y telir amdanynt.
- v. Marchnata digidol:** yn cynnwys costau gan gynnwys ffioedd asiantaeth a chynhyrchu sy'n gysylltiedig â chynnal ein presenoldeb digidol (sianelau gwefan a chyfryngau cymdeithasol) gan gynnwys ffioedd gwe-letya, optimeiddio peiriannau chwilio, profi a chynnal a chadw etc; a chynllunio, datblygu a chynhyrchu ymgyrchoedd cynnwys 'digidol frodorol'.
- vi. Partneriaethau Marchnata:** yn cynnwys yr holl gostau gan gynnwys cyllid a drosglwyddir yn uniongyrchol i sefydliadau partner (fel elusennau, grwpiau cymunedol a brandiau) y mae eu hangen ar gyfer cynllunio, datblygu a chynhyrchu partneriaethau marchnata.
- vii. Taith ffôn a chwsmwr:** yn cynnwys yr holl gostau gan gynnwys ffioedd sefydlu a pharhaus sy'n gysylltiedig â gweithredu taith gwsmeriaid newydd a hwylus dros y ffôn ac ar-lein gan gynnwys costau sefydlu seilwaith, trwyddedau, costau galwadau ffôn.
- viii. Mewnwelediad:** yn cynnwys yr holl gostau a ffioedd gofynnol ar gyfer cynllunio, comisiynu, cynnal a dadansoddi ymchwil at ddibenion ac er mwyn gwerthuso mewnwelediad, mesur ac optimeiddio, fel a ddisgrifir yn y papur hwn.

Materion corfforaethol

- i. Newyddion:** yn cynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â rheoli newyddion ymatebol a pharodrwydd i ymateb, gan gynnwys cefnogaeth asiantaeth, offer monitro cyfryngau, a thanysgrifiadau.
- ii. Polisi:** yn cynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig â gwaith arwain meddwl, gan gynnwys cynhyrchu tystiolaeth ac ymchwil polisi, a digwyddiadau dilynol.
- iii. Materion Cyhoeddus:** yn cynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig ag adeiladu gwybodaeth ac eiriolaeth ymysg gwleidyddion, busnesau a budd-ddeiliaid yng Nghymru, Lloegr a'r Alban, gan gynnwys cefnogaeth asiantaeth ac offer y mae ei angen i reoli gohebiaeth gyhoeddus.
- iv. Treuliau teithio a byw materion corfforaethol:** mae hyn yn cynnwys y costau teithio a'r treuliau byw cysylltiedig pan fydd ein staff yn teithio o'u gweithle i fynychu a chynnal digwyddiadau sy'n gysylltiedig â gwaith polisi a materion cyhoeddus.

Costau gweithredu sefydlog

- i. Costau staff:** yn cynnwys yr holl gostau staff uniongyrchol ac anuniongyrchol gan gynnwys cyflogau (gan gynnwys ymchwydd yn unol â chwyddiant o 1 Ion), yswiriant gwladol, cyfraniadau pensiwn, recriwtio a rhai buddion staff anuniongyrchol. Mae cronfa wrth gefn o £145k o fewn y llinell hon. Dylid nodi y disgwylir i'r nifer o staff CaALI aros ar yr un lefel â 2018.
- ii. Hyfforddi a datblygu:** gan gynnwys costau hyfforddi a datblygu llawn y mudiad gan gynnwys hyfforddiant un i un, hyfforddiant grŵp a chyfarfodydd cynllunio mewnol.
- iii. Archwilio perfformiad:** yn cynnwys yr holl gostau sy'n gysylltiedig ag asesu ein perfformiad corfforaethol megis adrodd canlyniadau i FfRhP e.e. dadansoddi'r llif cwsmeriaid. Mae hyn yn unigryw i fewnwelediad yr ymgyrch (manylion uchod).
- iv. Costau rhedeg adeiladau a swyddfeydd:** yn cynnwys rhent, trethu a thâl gwasanaeth ein tair swyddfa yn Llundain, Caerdydd a Chaeredin. Mae'r costau rhedeg cysylltiedig (o argraffu a phostio i lanhau a chynnal a chadw cyffredinol) wedi'u cynnwys hefyd.
- v. Treuliau teithio a byw:** yn cynnwys y costau teithio a threuliau byw cysylltiedig pan fydd ein staff yn gorfod gweithio i ffwrdd o'u prif weithle ar weithgareddau Ynni Clyfar GB.
- vi. TGCh:** yn cynnwys costau cefnogi TG, costau isadeiledd, trwyddedau (ar gyfer meddalwedd, storio a diogelwch) a chostau rhwydwaith.
- vii. Archwilio a chyfrifyddu ariannol:** yn cynnwys costau ein ffioedd cyfrifyddu allanol a'n ffioedd cadw cyfrifon allanol.
- viii. Yswiriant, cyfreithiol ac ymgynghoriaeth:** yn cynnwys yr holl gostau yswiriant a darpariaeth ar gyfer cefnogaeth gyfreithiol ac ymgynghoriaeth.
- ix. Darpariaeth ddrwgddyled:** yn 2019 mae risg na fydd rhai cyflenwyr yn gallu ariannu Ynni Clyfar GB o ganlyniad iddynt fynd i weinyddiaeth. Mae'r ddarpariaeth ddrwgddyled yn amcangyfrif o'r lefel o incwm efallai na chaiff ei dalu os daw'r risg hon i'r amlwg yn 2019.
- x. Treth:** Mae Ynni Clyfar GB yn agored i dalu treth gorfforaethol ar ei log banc. Mae'r dyraniad cyllideb hwn yn bodloni'r rhwymedigaeth honno.
- xi. Llog banc:** dyma amcangyfrif o'n llog banc yn seiliedig ar ein rhagamcaniad llif arian, gan ddefnyddio cyfraddau llog cyfredol.

